**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/MDFWL/0367/25

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru

Llywydd@senedd.cymru

11 Chwefror 2025

Annwyl Lywydd

**Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025**

Rwyf wedi gwneud heddiw Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025 o dan adrannau 14(3) a (6), 46(4), 93 a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2025. Amgaeaf gopi o’r offeryn statudol a’r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi’i gofrestru.

Yn unol â’r weithdrefn a nodir yn adran 95 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, rhaid i’r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 17 Mawrth 2025 er mwyn iddo gael effaith o hyd. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy’n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu’r pwyllgorau cyfrifol. Gallai fod o gymorth ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ar 11 Mawrth 2025.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip, Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.